

y Gaer Interpretation Project for Powys CC English to Welsh translation request No 17	
English	Cymraeg
Int290 DL	
Wanderer Shirley Jones, etching	Wanderer Shirley Jones, ysgythriad
<i>This etching, dated 1983, is from Scop Hwīlum Sang, an Illustrated collection of Old English poetry by Brecon artist, poet and translator Shirley Jones. The etching accompanies her translation of the ancient poem, <i>The Wanderer</i>, which vividly describes the poet's loneliness and yearning for the bright days of his past.</i>	Daw'r ysgythriad hwn, dyddiedig 1983, o ' <i>Scop Hwīlum Sang</i> ' casgliad â darluniau o hen farddoniaeth Saesneg gan yr arlunydd, bardd a chyfieithydd Shirley Jones. Mae'r ysgythriad yn cyd-fynd â'i chyfieithiad o'r hen gerdd, <i>The Wanderer</i> , sy'n rhoi disgrifiad nwyfus o unigrwydd y bardd a'i hiraeth am ddyddiau da'r gorffennol.
Int291 DL	
Seafarer Shirley Jones 1983 etching	Seafarer Shirley Jones 1983 ysgythriad
The <i>Seafarer</i> is an illustration for the artist's translation of an Old English poem which gives a first-person account of a man alone at sea lamenting his exile. Landscapes and seascapes loaded with historical significance under intense suns are a recurrent motif in Shirley her work.	Mae'r <i>Seafarer</i> yn ddarlun ar gyfer cyfieithiad yr arlunydd o hen gerdd Saesneg sy'n rhoi hanes dyn ar ei ben ei hun ar y môr yn edifar ei alltudiaeth. Mae tirluniau a morluniau sy'n llawn arwyddocâd hanesyddol dan haul dwys yn ymddangos dro ar ôl tro yng ngwaith Shirley.
Int 292 DL	
Battle of Maldon Shirley Jones 1983 etching	Battle of Maldon Shirley Jones 1983 Ysgythriad
Illustration for the artist's translation of the <i>Battle of Maldon</i> an Old English poem of uncertain date celebrating the real <i>battle of Maldon</i> in Kent where an Anglo-Saxon army failed to beat back a Viking raid. The illustration is inspired by the bleak, spare Kentish coastline.	Darlun ar gyfer cyfieithiad yr arlunydd o'r Battle of Maldon , hen gerdd Saesneg gyda'r dyddiad yn ansicr, yn dathlu brwydr go iawn Maldon yng Nghaint lle fethodd byddin Eingl-sacsonaidd guro ymosodiad gan y Llychlynwyr. Ysbrydolwyd y darlun gan arfordir llwm a noeth Caint.
Int293 DL	
Beowulf Shirley Jones 1983 etching	Beowulf Shirley Jones 1983 Ysgythriad
Illustration for Jones' translation of the Old English poem Beowulf. Beowulf is an epic story of a hero who fights monsters on behalf of others and is finally killed by	Darlun ar gyfer cyfieithiad Jones o'r hen gerdd Saesneg Beowulf. Mae Beowulf yn hanes epig arwr sy'n ymladd angenfilod ar

a dragon. <i>Scop Hwîlum Sang</i> was the first of Shirley Jones' books to be produced under the imprint of the "Red Hen Press" in 1983.	ran eraill ond sydd yn y pen draw'n cael ei ladd gan ddraig. <i>Scop Hwîlum Sang</i> oedd y cyntaf o lyfrau Shirley Jones i'w cynhyrchu dan argraffnod y "Red Hen Press" yn 1983.
Int294 DL	
Enchainement Radovan Kraguly, screenprint	Enchainement Radovan Kraguly, argraffiad sgrin
Radovan Kraguly was born in Yugoslavia in 1935 and came to Britain in the 1960s. He settled in a remote farmhouse north west of Builth Wells which became his studio. This screenprint, dating from 1993, is an example of his work which arises from a concern for an ecological relationship between man and livestock.	Ganed Radovan Kraguly yn Iwgoslafia yn 1935 gan ddod i Brydain yn yr 1960au. Ymgartrefodd mewn ffermdy anghysbell i'r gogledd-orllewin o Lanfair-ym-Muallt a ddaeth wedyn yn stiwdio. Mae'r argraffiad sgrin hwn sy'n dyddio o 1993, yn enghraifft o'i waith sy'n deillio o bryder dros berthynas ecolegol rhwng dyn a da byw.
Int295 DL	
Relief on blue Islwyn Watkins, mixed media	Cerfwedd ar las Islwyn Watkins, cyfrwng cymysg
Islwyn Watkins, who was born in 1938 in Tonypany, was influenced by the German artist, Kurt Schwitters. His constructions are vibrant and imaginative collages of scavenged bits and pieces which, when assembled, are elegant and witty. Watkins, who died in 2019, had a studio in Knighton, Powys where he ran an antique shop, pottery and gallery.	Ganed Islwyn Watkins yn 1939 yn Nhonypany a chafodd ei ddylanwadu gan yr arlunydd Almaeneg Kurt Schwitters. Mae ei waith yn collage nwyfus a dychmygol o sborion sy'n troi'n ddarnau cain a ffraeth ar ôl eu rhoi at ei gilydd. Bu farw Watkins yn 2019 ac roedd ganddo stiwdio yn Nhref-y-clawdd, Powys ynghyd â siop henbethau, crochendy ac oriel.
Int 296 DL	
Beadsman Tony Goble, watercolour	Beadsman Tony Goble, dyfrlliw
These two pictures by Tony Goble (1943-2007) are illustrations to Keats' poem, <i>The Eve of St. Agnes</i> , a medieval mystic romance in which a beadsman appears. A beadsman was a member of an almshouse whose duty was to pray regularly for his benefactor and ensure "the joys of all his life were said and sung".	Mae'r ddau lun hwn gan Tony Goble (1943-2007) yn lluniau i gerdd Keats, <i>The Eve of St. Agnes</i> , rhamant ddirgel ganoloesol lle mae paderwr yn ymddangos. Roedd paderwr yn aelod o elusendy a'i ddyletswydd oedd gweddïo'n rheolaidd dros ei gymwynaswr a sicrhau ei fod yn datgan ac yn canu am bleserau ei fywyd.
Int297 DL	
Angel and beadsman Tony Goble, watercolour	Angel and beadsman Tony Goble, dyfrlliw

<p>Tony Goble (1943-2007) was for many years artist in residence at Llanover Hall, the arts centre in north Cardiff. His sources of inspiration were strange and varied and his paintings individual and mysterious, following in the tradition of Blake and Chagall. The beadsman with his long beard resembles the artist.</p>	<p>Ers sawl blwyddyn, Tony Goble (1943-2007) oedd yr arlunydd preswyl yn Neuadd Llanofer, y ganolfan gelfyddydau yng ngogledd Caerdydd. Roedd ei ysbrydoliaeth yn rhyfedd ac yn amrywiol a'i luniau'n unigryw a dirgel, yn dilyn yn nhraddodiad Blake a Chagall. Mae'r paderwr gyda'i farf hir yn debyg i'r arlunydd.</p>
--	---

Int298 DL

<p>Chapel and two figures Aneurin Jones (1930-2017) oil</p>	<p>Capel a dau ffigwr Aneurin Jones (1930-2017) olew</p>
--	---

<p>Born near Trecastle. Aneurin Jones (1930-2017) was a farmer's son and took as his subject the rural life of Brecknockshire; the farmers and their families, their chapels, markets and livestock. Here two figures and a chapel evoke a past when the chapel was once the centre of the community and linked generations.</p>	<p>Ganed Aneurin Jones (1930-2017) yn Nhre Castell. Yn fab i ffermwr, ei ysbrydoliaeth oedd bywyd cefn gwlad Brycheiniog; y ffermwyr a'u teuluoedd, eu capeli, marchnadoedd a da byw. Yma mae dau ffigwr a chapel yn dwyn atogofion o orffennol pan roedd y capel wrth wraidd y gymuned ac yn cysylltu cenedlaethau.</p>
--	--

Int301 DL

<p>Llanthony Priory Edgar Holloway 1948 Wood Engraving</p>	<p>Priordy Llanddewi Nant Hodni Edgar Holloway 1949 Engrafiad ar bren</p>
---	--

<p>Edgar Holloway (1914-2008), was renowned for his etchings and engravings and spent many periods of his life in the Capel-y-ffin valley. This engraving of Llanthony Priory, dating from 1948, and that of The Monastery, were created as postcards to be sold to visitors to the valley.</p>	<p>Roedd Edgar Holloway (1914-2008) yn enwog am ei ysgythriadau a'i engrafiadau gan dreulio sawl cyfnod o'i fywyd yn nyffryn Capel-y-ffin. Cafodd yr engrafiad hwn o Briordy Llanddewi Nant Hodni, sy'n dyddio o 1948 a'r Fynachlog eu creu fel cardiau post i'w gwerthu i ymwelwyr â'r dyffryn.</p>
---	--

Submitted by: Liz Bickerton

Date: 16/011/2020

WORDS 568

Completed by: